

Gareth Owens LL.B Barrister/Bargyfreithiwr
Chief Officer (Governance)
Prif Swyddog (Llywodraethu)



Swyddog Cyswllt:
Sharon Thomas 01352 702324
sharon.b.thomas@flintshire.gov.uk

At: Bob Aelod o'r Cyngor

Dydd Gwener, 26 Mawrth 2021

Annwyl Gynghorydd,

RHYBUDD O GYFARFOD ANGHYSBELL
CYNGOR SIR Y FFLINT
DYDD IAU, 1AF EBRILL, 2021 2.00 PM

Mae'r rhaglen hon yn destun cyfyngiadau o ran cynnwys oherwydd Cyfnod yr Etholiad sy'n dechrau ar Dydd Llun 22 Mawrth ac yn dod i ben ar Dydd Sul 9 Mai 2021.

Yn gywir

Robert Robins
Rheolwr Gwasanaethau Democraidd

Sylwch: Bydd hwn yn gyfarfod rhithiol a bydd 'presenoldeb' yn gyfyngedig i Aelodau'r Cyngor.

Bydd y cyfarfod yn cael ei ffrydio'n fyw ar wefan y Cyngor. Bydd recordiad o'r cyfarfod ar gael yn fuan ar ôl y cyfarfod ar <https://flintshire.publici.tv/core/portal/home>

Os oes gennych unrhyw ymholiadau, cysylltwch ag aelod o'r Tîm Gwasanaethau Democraidd ar 01352 702345.

R H A G L E N

1 CYDNABYDDIAETH O 25 MLYNEDD Y CYNGOR SIR Y FFLINT CYFREDOL (Tudalennau 7 - 12)

Pwrpas: I gydnabod 25 mlynedd Cyngor Sir y Fflint ac i dalu teyrnged i aelodau etholedig y gorffennol a'r presennol.

2 YMDDIHEURIADAU AM ABSENOLDEB

Pwrpas: I dderbyn unrhyw ymddiheuriadau.

3 COFNODION (Tudalennau 13 - 36)

Pwrpas: I gadarnhau, fel cofnod cywir gofnodion y cyfarfodydd ar 26 Ionawr a 16 Chwefror 2021.

4 DATGAN CYSYLLTIAD

Pwrpas: I dderbyn unrhyw ddatganiad o gysylltiad a chynghori'r Aelodau yn unol a hynny.

5 CYHOEDDIADAU'R CADEIRYDD

Pwrpas: Derbyn unrhyw gyhoeddiad fel y'i dosbarthwyd.

6 DEISEBAU

Pwrpas: Mae hwn yn gyfle i Aelodau'r Cyngor gyflwyno deisebau ar ran pobl yn eu ward. Unwaith y byddant wedi dod i law, caiff deisebau eu pasio i'r Prif Swyddog priodol ar gyfer gweithredu ac ymateb iddynt.

PRIF EITEMAU BUSNES

7 ADOLYGIAD O'R PROTOCOL AR GYFER CWRDD Â CHONTRACTWYR (Tudalennau 37 - 50)

Adroddiad Prif Swyddog (Llywodraethu) -

Pwrpas: Ymgymryd ag adolygiad parhaus o'r Protocol i sicrhau ei fod yn ddiweddar ac yn berthnasol.

8 ADOLYGIAD O GYLCH GORCHWYL Y PWYLLGOR ARCHWILIO (Tudalennau 51 - 64)

Adroddiad Prif Swyddog (Llywodraethu) -

Pwrpas: Ceisio cymeradwyaeth i newid enw Pwyllgor Archwilio'r Cyngor a chynnwys swyddogaethau newydd yng nghylch gorchwyl presennol y Pwyllgor a ail-enwyd.

9 **DIWEDDARIAD YNGHYLCH GWEITHREDU'R DDEDDF LLYWODRAETH LEOL AC ETHOLIADAU 2021** (Tudalennau 65 - 72)

Adroddiad Prif Swyddog (Llywodraethu) -

Pwrpas: Hysbysu'r Cyngor am y gwaith sy'n cael ei wneud i weithredu'r Ddeddf.

10 **PENODI AELODAU ANNIBYNNOL I'R PWYLLGOR SAFONAU** (Tudalennau 73 - 78)

Adroddiad Prif Swyddog (Llywodraethu) -

Pwrpas: Ystyried penodi'r ymgeiswyr a ffefrir ar gyfer y swyddau Aelod Annibynnol ar y Pwyllgor Safonau.

EITEMAU CYFFREDIN BUSNES

11 **DEISEBAU SYDD WEDI DOD I LAW'R CYNGOR** (Tudalennau 79 - 82)

Adroddiad Prif Swyddog (Llywodraethu) -

Pwrpas: Rhoi gwybod i'r Cyngor am ganlyniadau deisebau sydd wedi cael eu cyflwyno dros y flwyddyn ddiwethaf.

12 **RHEOLIADAU ABSENOLDEB TEULUOL AR GYFER AELODAU AWDURDODAU LLEOL (CYMRU) (DIWYGIO) 2021** (Tudalennau 83 - 86)

Adroddiad Prif Swyddog (Llywodraethu) -

Pwrpas: Rhoi gwybod i'r Cyngor am y cynnydd yn hawl absenoldeb mabwysiadwr ar gyfer Aelodau.

13 **CWESTIYNAU GAN Y CYHOEDD**

Pwrpas: Derbyn Cwestiynau Cyhoeddus ar gyfer yr eitem hon: doedd dim wedi dod i law erbyn y dyddiad cau.

14 **CWESTIYNAU**

Pwrpas: Nodi'r atebion i unrhyw gwestiwn a gyflwynwyd yn unol â Rheol Sefydlog 9.4(A) y Cyngor Sir: doedd dim wedi dod i law erbyn y dyddiad cau.

15 **RHYBUDD O GYNNIG**

Pwrpas: Derbyn unrhyw Rhybuddion o Gynnig: doedd dim wedi dod i law erbyn y dyddiad cau.

DEDDF LLYWODRAETH LEOL (MYNEDIAD I WYBODAETH) 1985 - YSTYRIED GWAHARDD Y WASG A'R CYHOEDD

Mae'r eitem a ganlyn yn cael ei hystyried yn eitem eithriedig yn rhinwedd Paragraff(au) 12 Rhan 4 Atodiad 12A o Ddeddf Llywodraeth Leol 1972 (fel y cafodd ei diwygio)

Mae'r adroddiad yn cynnwys manylion personol un neu fwy o unigolion a enwir, ac mae budd y cyhoedd wrth gynnal yr eithriad yn drech na budd y cyhoedd wrth ddatgelu'r wybodaeth.

16 RECRIWTIO PRIF WEITHREDWR (Tudalennau 87 - 100)

Adroddiad Uwch Reolwr, Adnoddau Dynol a Datblygu Sefydliadol -

Pwrpas: I geisio cymeradwyaeth i recriwtio rôl y Prif Weithredwr yn dilyn hysbysiad o'r bwriad i ymddiswyddo a dderbyniwyd yn ddiweddar gan ddeiliad cyfredol y swydd ac i gytuno ar y broses recriwtio a pheccyn tâl.

Sylwch, efallai y bydd egwyl o 10 munud os yw'r cyfarfod yn para'n hirach na dwy awr.

Nodyn Gweithdrefnol ar redeg cyfarfodydd

Bydd y Cadeirydd yn agor y cyfarfodydd ac yn cyflwyno eu hunain.

Bydd nifer o Gynghorwyr yn mynychu cyfarfodydd. Bydd swyddogion hefyd yn mynychu cyfarfodydd i gyflwyno adroddiadau, gyda swyddogion Gwasanaethau Democrataidd yn trefnu a chynnal y cyfarfodydd.

Gofynnir i bawb sy'n mynychu i sicrhau bod eu ffonau symudol wedi diffodd a bod unrhyw sain gefndirol yn cael ei gadw mor dawel â phosib.

Dylai'r holl feicroffonau gael eu rhoi "ar miwt" yn ystod y cyfarfod a dim ond pan fyddwch yn cael eich gwahodd i siarad gan y Cadeirydd y dylid eu rhoi ymlaen. Pan fydd gwahoddedigion wedi gorffen siarad dylen nhw roi eu hunain yn ôl "ar miwt".

Er mwyn mynegi eu bod nhw eisiau siarad bydd Cynghorwyr yn defnyddio'r cyfleuster 'chat' neu yn defnyddio'r swyddogaeth 'raise hand' sy'n dangos eicon codi llaw electronig. Mae'r swyddogaeth 'chat' hefyd yn gallu cael ei ddefnyddio i ofyn cwestiynau, i wneud sylwadau perthnasol ac yn gyfle i'r swyddog gynghori neu ddiweddarau'r cynghorwyr.

Bydd y Cadeirydd yn galw ar y siaradwyr, gan gyfeirio at aelod etholedig fel 'Cynghorydd' a swyddogion yn ôl eu teitl swydd h.y. Prif Weithredwr neu enw. O bryd i'w gilydd mae'r swyddog sy'n cynghori'r Cadeirydd yn egluro pwyntiau gweithdrefnol neu'n awgrymu geiriad arall ar gyfer cynigion er mwyn cynorthwyo'r Pwyllgor.

Os, a phan y cynhelir pleidlais, mi fydd y Cadeirydd yn egluro mai dim ond y rheiny sy'n gwrthwynebu'r cynnig/cynigion, neu sy'n dymuno ymatal a fydd angen mynegi hynny drwy ddefnyddio'r swyddogaeth 'chat'. Bydd y swyddog sy'n cynghori'r Cadeirydd yn mynegi os bydd y cynigion yn cael eu derbyn.

Os oes angen pleidlais fwy ffurfiol, bydd hynny yn ôl galwad enwau – lle gofynnir i bob Cynghorydd yn ei dro (yn nhrefn yr wyddor) sut mae ef / hi yn dymuno pleidleisio.

Yng nghyfarfodydd Pwyllgorau Cynllunio a Chyngor Sir mae amseroedd siaradwyr yn gyfyngedig. Bydd cloch yn cael ei chanu i roi gwybod i'r siaradwyr bod ganddyn nhw funud ar ôl.

Bydd y cyfarfod yn cael ei ffrydio'n fyw ar wefan y Cyngor. Bydd recordiad o'r cyfarfod ar gael yn fuan ar ôl y cyfarfod ar <https://flintshire.publici.tv/core/portal/home>